

## Gwybodaeth am y gerddoriaeth ar gyfer Prosiect Patagonia Sinfonia Cymru: Mawrth 2022

Mae'r rhan fwyaf o'r gerddoriaeth ar y recordiad hwn:  
<https://sinfonia.cymru/2021/08/curate-two-nations-tango>

### Carlos Gardel: Por Una Cabeza

Ganed Carlos Gardel yn Ffrainc yn 1890, ond tyfodd i fyny a byw am y rhan fwyaf o'i oes yn Buenos Aires, yr Ariannin. Roedd yn ganwr, yn gyfansoddwr ac yn actor oedd yn dipyn o 'seléb' yn yr Ariannin a ledled y byd. Drwyddo ef y daeth y Tango yn enwog fel ffurf gerddorol, a defnyddiwyd ei gerddoriaeth yn eang mewn rhai o ffilmiau'r cyfnod. Mae Por Una Cabeza yn un o'r darnau Tango enwocaf, a defnyddiwyd hwn hefyd mewn nifer o ffilmiau. Ystyr y teitl yw 'gyda phen', ac mae'r gân yn sôn am ddyn sy'n colli popeth ar ôl i'w hoff geffyl golli ras 'by a head', fel y dywedir yn Saesneg.

Math o ddawns sy'n arddangos llawer o angerdd a drama yw'r tango. Mae'r gerddoriaeth bob amser yn llawn o felodïau hyfryd, glissandi (llithriadau) dramatig a rhythmau staccato. Mae gwreiddiau'r ddawns yn Ne America yn yr 1880au, lle roedd hi'n ddawns gymdeithasol yn ardaloedd y dociau, ac mae dylanwadau caethweision o Affrica a mewnfudwyr o Ewrop i'w gweld yn gryf arni.

<https://www.youtube.com/watch?v=GrWv500P2hg>

### Two Nations Tango – Nocturna & Sosban Fach (trefnwyd gan Gideon Brooks)

Cyfuniad yw'r darn yma o'r Tango traddodiadol o'r Ariannin, sef Nocturna gan Julián Plaza, a'r gân werin Gymraeg draddodiadol, Sosban Fach.

Roedd **Julian Plaza** hefyd yn gyfansoddwr enwog ym maes tango yr Ariannin, ond dechreuodd ei yrfa fel cerddor yn chwarae mewn bandiau tango. Gweithiodd gyda chyfansoddwyr enwog eraill o'r Ariannin, megis Piazzolla, ac mae Nocturna ymhlith ei weithiau Tango mwyaf enwog.

Mae **Sosban Fach** yn gân draddodiadol Gymraeg sy'n gyfarwydd i lawer o bobl gan ei bod yn cael ei chanu'n aml mewn gemau rygbi a chan gorau a cherddorion Cymreig. Mae'r teitl 'Sosban Fach' yn cael ei gysylltu'n bennaf â Chlwb Rygbi Llanelli ("Y Scarlets") i gydnabod hanes Llanelli yn y diwydiant tunplat.

#### Sosban Fach

Mae bys Meri-Ann wedi brifo,  
A Dafydd y gwas ddim yn iach.  
Mae'r baban yn y crud yn crio,  
A'r gath wedi sgramo Joni bach.  
Sosban fach yn berwi ar y tân,  
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,  
A'r gath wedi sgramo Joni bach.

#### Saesneg (cyfieithiad llythrennol)

Mary-Ann has hurt her finger,  
And David the servant is not well.  
The baby in the cradle is crying,  
And the cat has scratched little Johnny.  
A little saucepan is boiling on the fire,  
A big saucepan is boiling on the floor,  
And the cat has scratched little Johnny.

Dai bach y sowldiwr,  
Dai bach y sowldiwr,  
Dai bach y sowldiwr,  
A chwt ei grys e mas.

Little Dai the soldier,  
Little Dai the soldier,  
Little Dai the soldier,  
And his shirt tail is hanging out.

Mae bys Meri-Ann wedi gwella,  
A Dafydd y gwas yn ei fedd;  
Mae'r baban yn y crud wedi tyfu,  
A'r gath wedi huno mewn hedd.  
Sosban fach yn berwi ar y tân  
Sosban fawr yn berwi ar y llawr  
A'r gath wedi huno mewn hedd.

Mary-Ann's finger has got better,  
And David the servant is in his grave;  
The baby in the cradle has grown up,  
And the cat is resting in peace.  
A little saucepan is boiling on the fire,  
A big saucepan is boiling on the floor,  
And the cat is resting in peace.

Dai bach y sowldiwr,  
Dai bach y sowldiwr,  
Dai bach y sowldiwr,  
A chwt ei grys e mas.

Little Dai the soldier,  
Little Dai the soldier,  
Little Dai the soldier,  
And his shirt tail is hanging out.

Aeth hen Fari Jones i Ffair y Caerau  
I brynu set o lestri te;  
Ond mynd i'r ffos aeth Mari gyda'i llestri  
Trwy yfed llawer gormod o "de".  
Sosban fach yn berwi ar y tân  
Sosban fawr yn berwi ar y llawr  
A'r gath wedi huno mewn hedd.

Old Mary Jones went to the fair in Caerau,  
To buy a teaset;  
But Mary and her teacups ended up in a ditch,  
By drinking rather too much "tea".  
A little saucepan is boiling on the fire,  
A big saucepan is boiling on the floor,  
And the cat is resting in peace.

## Calon Lân

<https://www.youtube.com/watch?v=9YFGM8LXRPM>

Cyfansoddwyd geiriau'r emyn hwn gan Daniel James a'r gerddoriaeth gan John Hughes. Mae wedi dod yn boblogaidd fel cân draddodiadol, ac fel anthem a genir cyn pob un o Gemau Rygbi Rhyngwladol Cymru.

### Calon Lân:

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,  
Aur y byd na'i berlau mân:  
Gofyn wyf am galon hapus,  
Calon onest, calon lân.

### Saesneg:

I don't ask for a luxurious life,  
the world's gold or its fine pearls:  
I ask for a happy heart,  
an honest heart, a pure heart.

### (Cytgan):

Calon lân yn llawn daioni,  
Tecach yw na'r lili dlos:  
Dim ond calon lân all ganu,  
Canu'r dydd a chanu'r nos.

### (Chorus)

A pure heart full of goodness  
Is fairer than the pretty lily:  
None but a pure heart can sing,  
Sing all day and sing all night.

Pe dymunwn olud bydol,  
Chwim adenydd iddo sydd;  
Golud calon lân, rinweddol,

If I wished for worldly wealth,  
It would swiftly go to seed;

Yn dwyn bythol elw fydd.

The riches of a virtuous, pure heart  
Will bear eternal profit.

**Mae yna hefyd fersiwn Sbaeneg o Calon Lân sy'n cael ei ganu'n aml yn Y Wladfa ym Mhatagonia:**

Yo no pido vida ociosa,  
Perlas ni un galardón:  
Pido un corazón alegre,  
Un honesto corazón.

Calon lân yn llawn daioni,  
Tecach yw na'r lili dlos:  
Dim ond calon lân all ganu  
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Si quisiera la riqueza,  
Pronto pierde su valor;  
Más un corazón bien limpio,  
Cada día es mejor.

**René Griffiths: Heno Mae'n Bwrw Cwrw**

Canwr, cyfansoddwyr caneon a gitarydd o Batagonia yw René Griffiths. Roedd ei hynafiaid ymhlith y Cymry a ymfudodd i Batagonia yn 1865, ac mae'n dal i siarad Cymraeg a Sbaeneg ac yn canu yn y ddwy iaith. Mae e bellach yn byw yng Nghaerdydd, ac yn ei gerddoriaeth gallwch glywed elfennau o'i ddau gefndir diwylliannol, gydag odlau o'r Ariannin ac alawon Celtaidd. Mae ei eiriau gwreiddiol i'r gân hon yn sôn am ddathlu gyda ffrindiau, a mynd i barti sydd yn ei anterth yn fuan iawn, gyda digonedd i'w fwyta ac yfed a llawer o hwyl i'w gael! Isod mae geiriau gwahanol am y daith i Batagonia, a'r cyffro o groesi Môr Iwerydd.

**Cymraeg**

Teithio i Batagonia  
Teithio i Batagonia  
I'r de o'r Cyhydedd  
Croesi'r Iwerydd,  
Byw dy freuddwydion!

Ffwrdd â ni!  
Vamonos

Teithio i Batagonia  
Teithio i Batagonia  
I'r de o'r Cyhydedd  
Croesi'r Iwerydd,  
Byw dy freuddwydion!

Ffwrdd â ni!  
Vamonos

## **Piazzolla: La Muerte del Ángel**

Mae Piazzolla ymhlith cyfansoddwyr enwocaf yr Ariannin. Perfformir ei waith yn gyson ledled y byd, a threfnwyd ei gyfansoddiadau ar gyfer nifer o wahanol grwpiau o gerddorion, o gerddorfeydd mawr i fandiau tango llai o faint. Roedd Piazzolla ei hun yn chwarae'r bandoneon, sef math o acordeon; chwaraeodd mewn nifer fawr o grwpiau a bandiau a chyfansoddi cerddoriaeth ar eu cyfer. Chwaraeodd gyda Carlos Gardel, hyd yn oed – cerddor a ddysgodd lawer iddo am y tango ac am gerddoriaeth yr Ariannin.

Daw La Muerte del Ángel o gyfres o ddarnau 'Angel' a newidiodd sain draddodiadol y tango yn llwyr. Mae ei sain yn ddramatig a thywyll iawn, gyda rhythmau dwys yn gyrru'r gerddoriaeth yn ei blaen. Cafodd ei seilio ar ddrama o'r enw Tango del Ángel, am angel a geisiodd wella ysbryd toredig pobl mewn tŷ yn Buenos Aires, ond a fu farw mewn brwydr â chyllyll.

## **Alaw werin o'r Andes: Chacarera**

[https://www.youtube.com/watch?v=cMYO\\_D-RdBE](https://www.youtube.com/watch?v=cMYO_D-RdBE)

Mynyddoedd yr Andes yw'r gadwyn o fynyddoedd cyfandirol hiraf yn y byd, ar hyd ymyl gorllewinol De America. Dawns yw'r Chacarera a ddaeth yn wreiddiol o Santiago del Estero, ger mynyddoedd yr Andes, lle mae yna ddiwylliant gwerin cyfoethog. Ystyrir fod y Chacarera yn fersiwn gwledig o'r Tango mwy adnabyddus a soffistigedig. Fel arfer, caiff ei chwarae gan unawdwyr neu mewn grwpiau bach gyda chanwr, gitâr a ffidil.